**Y Grŵp Trawsbleidiol ar Blant a Phobl Ifanc**

**21 Mawrth 2018 12:30-13:30**

**Tŷ Hywel, Ystafell Gynadledda A.**

**Hawliau Plant a Brexit**

**Siaradwyr**
Ceri Wyn Jones, Uwch-swyddog Cymorth Teulu, Dechrau'n Deg Gwynedd
Lowri Lloyd Williams, Gweithiwr Cymorth Teulu, Teuluoedd yn Gyntaf Gwynedd
Vivienne Laing, Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus, NSPCC Cymru
Catriona Williams OBE, Prif Weithredwr, Plant yng Nghymru
Andy James, Cadeirydd 'Sdim Curo Plant Cymru

**Aelodau'r Grŵp Trawsbleidiol**
Julie Morgan AC, Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Blant a Phobl Ifanc
David Melding AC, Is-gadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Blant a Phobl Ifanc
Jane Hutt AC, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Yn bresennol**
Diane Daniel, Prif Weithredwr, Tros Gynnal Plant,
Anna Elliot, BBC Cymru Wales
Mike Greenaway, Cyfarwyddwr, Chwarae Cymru
Rhodri Lewis, Plant yng Nghymru
Jackie Murphy, Prif Swyddog Gweithredol, Tros Gynnal Plant
Sara Reid, Cydgysylltydd 'Sdim Curo Plant! Cymru
Tim Ruscoe, Swyddog Materion Cyhoeddus Cymru, Barnardo's Cymru
Wendy Thomas, Uwch-swyddog Ymgysylltu Deddfwriaeth, Llywodraeth Cymru
Nell Warner, Ymchwilydd PhD, Prifysgol Caerdydd
Helen West, Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Melanie Williams, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Samantha Williams, Anabledd Dysgu Cymru
Jemma Wray, Plant mewn Angen, BBC Cymru Wales
Geraldine Murphy, Swyddog Datblygu, Plant yng Nghymru

**Ymddiheuriadau**
Llyr Gruffydd AC, Is-gadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Blant a Phobl Ifanc
Lorraine Childs, Canolfan Blant Integredig Cwmbrân
Lena Evans, Arweinydd Tîm Teuluoedd yn Gyntaf Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.
Nicola Fields, Llywodraeth Cymru
John Griffiths AC, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Yr Athro Judy Hutchings, Y Ganolfan ar gyfer Ymyrraeth Gynnar yn seiliedig ar Dystiolaeth
Claire Jackson, Grŵp Cyfryngu Dyffryn Gwy
Irene Mahon, Arweinydd Tîm Rhianta Dechrau'n Deg Torfaen
Kim Oak, Gweithredu dros Blant

## 1. Croeso

Croesawodd Julie Morgan AC bawb i gyfarfod y Grŵp.

Dechreuodd Catriona Williams trwy ddweud bod hwn yn amser pwysig iawn i rianta cadarnhaol gan fod ymgynghoriad ar y gweill gan Lywodraeth Cymru. Trafododd y gynhadledd ddiweddar am rianta cadarnhaol a gynhaliwyd ar y cyd gan Plant yng Nghymru, NSPCC, BASPCAN ac IPSCAN a dywedodd ei bod hi'n bwysig iawn helpu'r cyhoedd i ddeall y mentrau rhianta cadarnhaol.

## 2. Cyfraniadau

Soniodd Andy James am ymgyrch amddiffyniad cyfartal Sdim Curo Plant! Cymru sydd wedi bod ar waith am bron 18 mlynedd. Roedd yn falch bod Llywodraeth Cymru wedi cyrraedd y pwynt hwn. Roedd yn bwysig nawr, dywedodd, i ymateb i'r ymgynghoriad ac mai'r cwestiwn pwysicaf oedd yr un cyntaf, sef a fyddai'r cynigion yn hyrwyddo hawliau plant yng Nghymru. Anogodd bobl i ymateb i'r ymgynghoriad i gefnogi Llywodraeth Cymru.

Cytunodd Julie Morgan ei bod yn bwysig ymateb i'r ymgynghoriad i helpu i gefnogi'r Llywodraeth. Roedd hi'n bwysig, meddai, fod yr Aelodau Cynulliad yn trosglwyddo'r neges am rianta cadarnhaol.

Dechreuodd Ceri Wyn Jones, a Lowri Lloyd Williams, o Gymorth Teulu Gwynedd eu cyflwyniad. Fel gweithwyr rheng flaen, maent yn gweithio'n uniongyrchol gyda rhieni sydd wedi cael eu hatgyfeirio. Mae mwyafrif y rhieni yn deall rhianta cadarnhaol yn ymarferol, ond gall materion perthynas a phethau fel methu â chysgu wneud problemau'n waeth. Maent yn cynnal asesiadau ar y cyd gyda theuluoedd er mwyn dod i'w hadnabod yn well ac i'w helpu i newid yn gadarnhaol. Soniwyd mai'r prif beth yr oeddynt am geisio'i wneud oedd newid cymhelliad y rhiant, ac maent yn trin hyn yn ofalus iawn. Soniwyd hefyd eu bod yn ceisio grymuso teuluoedd. Trwy ddarganfod eu cymhelliant dros newid, gallent annog newidiadau bach, gan arwain at newidiadau cynaliadwy yn yr hirdymor. Roedd eu model yn buddsoddi mewn goruchwyliaeth o safon ac yn dadansoddi trafodion. Roedd llawer o rieni yn dibynnu ar eu gwasanaethau i'w grymuso a'u helpu i wneud mwy eu hunain. Maent bob amser ar gael i gynnig cymorth.

## 3. Trafodaeth

Mae'r ystadegau'n dangos nad yw'r genhedlaeth bresennol o rieni yn defnyddio cosb gorfforol gymaint â'r cenedlaethau blaenorol. Gofynnwyd a oedd rhoi cosb gorfforol yn fwy cyffredin ymysg neiniau a theidiau, ac a oedd yna fwlch rhwng y cenedlaethau.

Roedd y mater yn dal i fod yn bwnc tabŵ mewn teuluoedd a chymunedau meddai Ceri. Felly nid oedd yr ystadegau yn gwbl ddibynadwy, oherwydd nad oedd llawer o rieni neu ofalwyr yn siarad am hyn.

Gofynnodd Iechyd Cyhoeddus Cymru a oedd y swyddogion cymorth wedi bod yn gweithio gyda rhieni ag anableddau. Cadarnhaodd Ceri eu bod, a'i bod hi weithiau'n anoddach siarad â'r rhieni hynny, gan fod rhai yn credu nad oes gan y plant anableddau dysgu. Maent yn cynnig cefnogaeth un i un gan ddefnyddio technegau gwahanol.

Dywedodd Catriona fod y rhan fwyaf o raglenni rhianta fel arfer yn rhai ar gyfer grwpiau penodol a gofynnodd pa syniadau oedd gan y cyflwynwyr ar gyfer pob rhiant, nid dim ond y rheini sydd wedi cael eu hadnabod yn rhai sydd angen cymorth.

Dywedodd Ceri fod angen sicrhau nad yw teuluoedd yn llithro drwy'r rhwyd.

Dywedodd Wendy Thomas, a oedd yn gweithio ar y Bil, ei bod yn bwysig codi mwy o ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd a bod angen ymgyrch farchnata fawr.

Dywedodd Geraldine Murphy fod llawer o weithwyr proffesiynol sy'n gweithio mewn mentrau amlasiantaethol yn y Gynhadledd Rhianta Cadarnhaol. Mae darparu cymorth i rieni mewn modd cyffredinol, nad yw'n stigmateiddio, yn hollbwysig ac roedd angen dull amlasiantaethol o weithredu.

Dywedodd Diane Daniel ei bod wedi gweld cyflwyniad yng Nghyngor Polisi Plant yng Nghymru gan Ysgol Gynradd Millbrook a oedd yn gwbl amlasiantaethol.

Dywedodd Vivienne Laing fod rhianta cadarnhaol yn ddull gwahanol i'r hyn yr oedd y rhan fwyaf o bobl wedi arfer ag ef, a bod parchu a chyfathrebu â phlant yn allweddol, yn ogystal â chanmol ymddygiad da a disgyblaeth gadarnhaol. Mae plant yn camymddwyn oherwydd eu bod yn dysgu ffiniau; mae disgyblaeth gadarnhaol yn dysgu rheolau a ffiniau. Roedd ymgyrch newydd NSPCC 'Take 5', meddai, yn seiliedig ar fod 43% o rieni yn meddwl bod smacio'n dderbyniol, ond dim ond 5% oedd yn gyfforddus yn gwneud hynny. Diben yr ymgyrch oedd helpu rhieni i bwyllo cyn colli'u tymer.

Dywedodd David Melding AC fod angen i Aelodau'r Cynulliad gael syniad o'r ffordd y mae'r ymgynghoriad ar gosb resymol yn datblygu. Roedd patrwm yr ymddygiad yn sicr yn newid, meddai. Dywedodd hefyd fod y sylw yn y wasg wedi bod yn gadarnhaol i bob golwg ac na fu'r ymateb mor llym ag y disgwyliwyd.

Dywedodd Julie Morgan AC fod yr ymateb yn y wasg wedi bod yn dda, a chytunodd fod y sylw yn gadarnhaol i raddau helaeth, gan nodi ei fod hyd yn oed yn fwy cadarnhaol yn *The Times* ac mewn arolwg ITV ar Twitter.

Dywedodd Jane Hutt AC fod angen ymateb sylweddol gan weithwyr cymdeithasol. Yn ei phrofiad hi, roedd llawer o bobl a ddylai wybod am yr ymgynghoriad heb fod yn gwybod amdano. Nid oedd llawer o amser ar ôl i'w gwneud yn ymwybodol o'r ymgynghoriad, meddai.

Dywedodd Ceri ei bod yn bwysig dod â smacio i'r sgwrs mewn ffordd niwtral i gael atebion onest gan rieni, a dywedodd na allant helpu mewn gwirionedd os na allant wneud hynny. Ni ddylai fod yn tabŵ, meddai. Dylai fod yn rhywbeth y gallwn ni ei drafod.

Dywedodd Tim Ruscoe y bydd y gyfraith yn newid, ac yna y byddai ymddygiad yn newid gydag amser; ni fydd y gyfraith yn newid ymddygiad ar unwaith. Dywedodd y byddai dibynnu gormod ar adnoddau ar-lein yn arwain at golli'r gwaith wyneb yn wyneb rhagweithiol.

Cytunodd Ceri a dywedodd ei bod yn rhannu'r un pryder, yn enwedig yn achos teuluoedd ar y trothwy o gael cymorth.

Dywedodd Catriona, mewn rhai achosion, nad pob meddyg teulu a gweithiwr proffesiynol fyddai â diddordeb mewn cynghori ar rianta cadarnhaol nac yn hyderus yn gwneud hynny, ac felly roedd yn bwysig bod cymorth wyneb yn wyneb yn dal i fod ar gael mewn gwasanaethau eraill.

Nododd Geraldine fod meddygon teulu yn Abertawe wedi ariannu gweithiwr cefnogi teulu ar gyfer cynllun treialu. Bydd yr adroddiad gwerthuso ar gael yn fuan ond mae'r canlyniadau cynnar yn dangos gostyngiad yn yr atgyfeiriadau i ofal cymdeithasol.

Gofynnodd Diane Daniels pa neges ddylai gael ei hanfon at neiniau a theidiau. Maent yn dod o genhedlaeth wahanol lle roedd smacio'n dderbyniol yn gymdeithasol a dywedodd y dylai unrhyw neges fod yn ofalus i beidio â beirniadu eu ffordd hwy o rianta.

Anghytunodd Sara Reid â Tim na fydd y gyfraith yn newid ymddygiad. Cyfeiriodd at yr enghreifftiau o ysmygu dan do, defnyddio'r ffôn wrth yrru a defnyddio gwregysau diogelwch ac ati.

Roedd yn rhaid i Aelodau'r Cynulliad fynd i'r Siambr ac felly trosglwyddodd Julie Morgan y gadair i Catriona.

Dechreuodd Catriona gau'r cyfarfod, gan ddweud bod ymwybyddiaeth gyffredinol yn allweddol.

Tynnodd Sara sylw at yr angen i frwydro yn erbyn codi bwganod a chamddealltwriaeth. Soniwyd yn y siambr drafod y bydd miloedd o rieni yn dod yn droseddwyr o dan y cynigion newydd, ond does dim tystiolaeth i wneud honiad o'r fath.

Dywedodd Wendy Thomas nad oes rhaid ymateb i'r ymgynghoriad ar ffurflen benodol Llywodraeth Cymru. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyfrif llythyrau a negeseuon e-bost hefyd.

Dywedodd Catriona, y soniwyd, mewn cyfarfod â'r academyddion o Sweden na fu unrhyw gynnydd mewn erlyniadau ar ôl iddynt basio Bil tebyg.

Dywedodd Wendy y bydd y Bil yn rhoi mwy o eglurder, yn rhoi'r ateb syml 'Na' pan fydd rhieni'n gofyn a yw'n iawn smacio plant, gan nad yw hyn yn glir ar hyn o bryd. Roedd Catriona yn sylweddoli bod ADSS wedi croesawu newid yn y gyfraith ac y byddai'n cynorthwyo gwaith gweithwyr cymdeithasol.

Daeth Catriona â'r cyfarfod i ben a diolchodd i bawb am fod yn bresennol, yn enwedig y siaradwyr o Wynedd.